**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

556/51

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 6a

## CREFYDDAU'R GORLLEWIN

**Astudiaethau mewn naill ai Islam neu Iddewiaeth**

A.M. DYDD MERCHER, 14 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 25 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch gwestiynau o* **un** *adran yn unig,* **naill ai** *Adran A* **neu** *Adran B.*

**ADRAN A: Astudiaethau mewn Islam**

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn.*

**1.** *(a)* Eglurwch, gydag enghreifftiau, y pum egwyddor a geir o fewn Shari'a. [15]

*(b)* 'Rhaid i bob Mwslim ufuddhau i gyfraith Shari'a oherwydd ei fod yn cynnwys cyfarwyddiadau uniongyrchol Allah ar bob agwedd ar fywyd dynol.'
Gwerthuswch y datganiad hwn. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch ddealltwriaethau *(understandings)* Mwslimaidd o'r cysyniad o jihad. [15]

*(b)* 'Nid yw'r cysyniad o ryfel sanctaidd yn berthnasol i Fwslimiaid yr unfed ganrif ar hugain.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Archwiliwch y newid chwyldroadol a gafwyd yn statws menywod oherwydd ymddangosiad Islam. [15]

*(b)* 'Mae menywod Mwslimaidd yn cael eu trin yn wael oherwydd traddodiadau diwylliannol, nid oherwydd cyfraith Islamaidd.'
Aseswch y farn hon. [10]

**ADRAN B: Astudiaethau mewn Iddewiaeth**

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn.*

**1.** *(a)* Eglurwch sail gwrthwynebiad Mitnagdim i'r diwygiad crefyddol a arweiniwyd gan Baal Shem Tov. [15]

*(b)* 'Roedd ymddangosiad y Mudiad Hasidaidd yn seiliedig yn gyfan gwbl ar wir ymroddiad i'r Torah.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**2.** *(a)* Archwiliwch rôl menywod o fewn Iddewiaeth Hasidaidd. [15]

*(b)* 'Mae menywod uniongred yn mwynhau parch ac anrhydedd fel asgwrn cefn bywyd teuluol Iddewig.'
Gwerthuswch yr honiad hwn. [10]

**3.** *(a)* Archwiliwch y berthynas rhwng Seioniaeth a'r grefydd Iddewig. [15]

*(b)* 'Gwrth-Semitiaeth eang *(widespread)* yn unig oedd wedi achosi twf Seioniaeth.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]